WHAT ARE DIRECT PAYMENTS?

If you are:

- Physically or sensory impaired
- Learning disabled
- Disabled by illness
- A carer
- A parent or guardian of a disabled child
- Over 65 years of age
- A disabled 16 or 17 year old

You may be eligible to receive money through the Direct Payments Scheme from the Social Care and Housing Directorate to purchase your own care privately.

The Direct Payments Scheme is designed to give you more independence, choice and control, in order to help you manage your own life in your own home. If you need help or assistance with personal care or everyday living tasks, you have three options:

- **To receive Care directly from the Social Care and Housing Directorate**
- **To receive money through the Direct Payments Scheme to purchase Care privately**
- **Or a combination of the two**

You may also be able to use Direct Payments for short periods of respite care, if agreed by the Social Care and Housing Directorate as part of your eligibility for this service.

HOW DO DIRECT PAYMENTS WORK?

A Care Co-ordinator will visit you to talk about your situation and the help that you need. This is called an Assessment. For example you may need help with personal care such as washing, dressing, or tasks such as shopping or meal preparation.

If you choose to receive Direct Payments to pay for some or all of the help that you need, the weekly cost will be worked out. Social Care and Housing will then pay you the money every four weeks in advance. This payment can be made to a parent or carer in some circumstances.

You have to use your Direct Payments money to pay somebody to help you, or for equipment or a service for which you have been assessed as eligible. We will ask you to keep records of how the money is spent. By managing your own assistance in this way, you may have more choice of who assists you, and at what time - to fit in with your lifestyle.

WHO CAN I EMPLOY?

You can employ anyone as long as the person is not your spouse/partner or someone living in the same household.

To receive direct payments you must be:

- **Assessed as eligible for help from the Social Care and Housing Directorate, or already receiving Care from them**
- **Willing and able to manage the Direct Payments either alone or with assistance**

A support service will be provided by the Rowan Organisation. They can help with the recruitment of a Personal Assistant, and their 'management', if you need it.

WILL I HAVE TO PAY?

You may be asked to make a contribution towards the cost of your care, depending on the service you require and your circumstances. This is calculated in accordance with the Social Care and Housing Directorate's Fairer Charging Policy.

WILL DIRECT PAYMENTS AFFECT MY BENEFITS?

No. Direct Payments are not taken into consideration when Social Security calculates your benefits. Also, you do not have to pay tax on money received under the Direct Payments Scheme.

HOW CAN I FIND OUT MORE?

By contacting: Pembrokeshire County Council's Social Care and Housing Directorate
Tel: 01437-764551 www.pembrokeshire.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Taliadau Uniongyrchol

Gwybodaeth i gwsmeriaid, gofalyddion a gweithwyr proffesiynol

05/2008/DP

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai

BETH YW TALIADAU UNIONGYRCHOL?

Os ydych chi'n unigolyn:

- Â nam corfforol neu synhwyraidd
- Ag anabledd dysgu
- Ag anabledd oherwydd salwch
- Yn ofalydd
- Yn rhiant neu'n warcheidwad plentyn anabl
- Dros 65 mlwydd oed
- 16 neu 17 oed sy'n anabl

Efallai eich bod yn gymwys i dderbyn arian trwy'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol gyda'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai, er mwyn prynu eich gofal eich hun yn breifat.

Nod y Cynllun Taliadau Uniongyrchol yw rhoi rhagor o annibyniaeth, dewis a rheolaeth i chi er mwyn eich helpu i reoli eich bywyd eich hun yn eich cartref eich hun. Os oes arnoch angen cymorth neu help llaw gyda'ch gofal personol neu dasgau byw bob dydd, yna mae gyda chi dri dewis.

- **Derbyn Gofal yn uniongyrchol gyda'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai**
- **Derbyn arian trwy'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol er mwyn prynu Gofal yn breifat**
- **Neu gyfuniad o'r ddau uchod**

Ar ben hynny efallai y gallwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol er mwyn cael cyfnodau byr o ofal seibiant - os yw'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai yn cytuno ar hynny fel rhan o'ch cymhwyster i dderbyn y gwasanaeth hwn.

SUT MAE TALIADAU UNIONGYRCHOL YN GWEITHREDU?

Bydd Cydlynydd Gofal yn dod i'ch gweld ynglŷn â'ch sefyllfa a'r help sydd ei angen arnoch. Asesiad yw hyn. Er enghraifft, efallai y bydd arnoch angen cymorth gyda gofal personol er mwyn gwneud pethau fel ymolchi, gwisgo, neu dasgau fel siopa neu baratoi pryd o fwyd.

Os ydych chi'n dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn talu am ryw gymaint, neu bob elfen, o'r help sydd ei angen arnoch yna byddwn yn cyfrifo beth yw'r gost wythnosol. Wedyn, bydd Gofal Cymdeithasol a Thai yn talu'r arian ichi bob pedair wythnos ymlaen llaw. Mewn rhai amgylchiadau gellir rhoi'r taliad hwn i riant neu ofalydd.

Rydych chi'n gorfod defnyddio eich arian Taliadau Uniongyrchol er mwyn talu i rywun am eich helpu neu am offer neu wasanaeth y mae'r asesiad wedi dangos eich bod yn gymwys. Byddwn yn gofyn ichi gadw cofnodion ynghylch sut mae'r arian yn cael ei wario. Trwy reoli eich cymorth eich hun yn y modd hwn, fe allwch gael rhagor o ddewis mewn perthynas â phwy sy'n eich cynorthwyo, a phryd - er mwyn cyd-fynd â'ch dull chi o fyw.

PWY ALLAF I EI GYFLOGI?

Gallwch gyflogi unrhyw berson cyhyd â thaw nid eich priod/partner neu rhywun sy'n byw yn yr un tŷ â chi, yw'r person hwnnw.

Er mwyn derbyn taliadau uniongyrchol mae'n rhaid ichi:

- **Fod wedi cael asesiad sy'n dangos eich bod yn gymwys i gael cymorth gyda'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai, neu eisoes yn derbyn Gofal gyda hwy**
- **Fod yn fodlon ac abl i reoli'r Taliadau Uniongyrchol naill ai ar eich pen eich hun neu gyda chymorth**

Bydd Sefydliad y Gerddinen yn darparu gwasanaeth cynnal. Gallant hwy roi cymorth gyda chyflogi Cynorthwy-ydd Personol, a'i 'reoli' ef/hi, os oes arnoch angen hynny.

FYDDAF I'N GORFOD TALU?

Efallai y gofynnir ichi gyfrannu at gost gofalu amdanoch, yn dibynnu ar y gwasanaeth sydd ei angen arnoch a'ch amgylchiadau. Caiff hyn ei gyfrifo yn unol â'r Polisi Codi Tâl Tecach sydd gyda'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai.

A FYDD TALIADAU UNIONGYRCHOL YN EFFEITHIO AR FY MUDD-DALIADAU?

Na fydd. Nid yw taliadau uniongyrchol yn cael eu cymryd i ystyriaeth pan fydd Nawdd Cymdeithasol yn cyfrifo eich budd-daliadau. Ar ben hynny ni fyddwch yn gorfod talu treth ar arian a gewch trwy'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol.

SUT ALLAF I GAEL RHAGOR O WYBODAETH?

Trwy gysylltu â: Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Penfro
Ffôn: 01437-764551 www.pembrokeshire.gov.uk

05/2008/DP

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Direct Payments

Information for customers, carers and professionals

Social Care and Housing Directorate